

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mawrth 22 Medi 2026
Amser y cyfarfod:	13:35 – 16:25
Lleoliad:	

Amser	Eitem
Materion Rhagarweiniol	
13:35 (5 munud)	Eitem 1. Agor y Cyfarfod • Croeso • Datgan Buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau
13:40 (5 munud)	Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau Cyhoeddus Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau
13:45 (5 munud)	Eitem 3. Gair am Ddiogelwch Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: I aelod o'r cyfarfod roi gair o gyngor neu atgoffa ynghylch iechyd, diogelwch neu les.

Golwg Gyffredinol

13:50
(10 munud)

Eitem 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd

14:00
(40 munud)

Eitem 5. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch gweithgareddau allweddol

Cyfeirnod papur: 26-09-B06

Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

14:40
(15 munud)

Eitem 6. Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgorau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Pwyllgor neu ffora sydd wedi gyfarfod ers Bwrdd diwethaf:-

- Pwyllgor Cyllid – 9 Medi
- Nid yw'r Pwyllgor Cyflawni Strategol wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf ers Bwrdd. Gofynnir i'r Bwrdd **GYMERADWYO'R** drafft o'r ymateb i lythyr y Canghellor sy'n ceisio sicrwydd ynghylch sut y bydd CNC yn cefnogi cyflawniad Rhaglen Niwclear y DU.

Cyfeirnod papur: 26-09-B10

Crynodeb: I CYMERADWYO ymateb CNC i lythyr y Canghellor.

Pwyllgor neu ffora nad ydynt i gyfarfod tan ar ôl Bwrdd:-

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth
- Pwyllgor Pobl
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru
- Fforwm Rheoli Tir Cymru

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC.

Cynllunio Strategol

14:55
(20 munud)

Eitem 7. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Cyflwynwyr: Catherine Allan, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R newid yn y rhagolwg diweddaraf o £322.4m i £322.6m. CRAFFU ar y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2026.

Cyfeirnod papur: 26-09-B08

Cyflawni ein Cynllun

15:15
(60 munud)

Eitem 8. Cyflwyniad Natur Amcan Llesiant 1

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth

Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau, De-orllewin Cymru; Neil Parker, Arweinydd Tim, Polisi a Strategaeth Bioamrywiaeth; Paula Harley, Pennaeth Gofal Tir; Matthew Park, Rheolwr, Gofal Tir

Crynodeb: TRAFOD Amcan Llesiant 1

16:15
(5 munud)

Eitem 9. Adborth ar gyfarfod heddiw

Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd

Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod, yr hyn a wnaeth weithio a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn wahanol.

16:20
(5 munud)

Eitem 10. Unrhyw Fater Arall

16:25

Cloi'r Cyfarfod Cyhoeddus

16:30 – 18:30

Sgwrs gyda CNC – Pafiliwn Llywodraeth Cymru

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus)
Lleoliad:	Teams
Dyddiad y cyfarfod:	29 Gorffennaf 2026
Aelodau yn bresennol:	Neil Sachdev, Cadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Sarah Albon Mair Gwynant Dr Hushneara Begum Rebecca Colley-Jones Dr Pete Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway Adam Taylor
Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd
Mynychwyr yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) (Pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (Pob eitem) Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch - eitem 8 yn unig
Arsylwyr yn bresennol:	

Ymddiheuriadau:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth
Ysgrifenyddiaeth:	Rhiannon Spencer, Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Lauren Hughes, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Deb Lee, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datgan Buddiannau:	Rebecca Colley-Jones – Aelod o Fwrdd Grŵp Cynefin

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac estyn croeso i bawb. Nodwyd y datganiadau o ddiddordeb a'r ymddiheuriadau a nodir uchod. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd bwrdd Connected Places Catapult ar 27 Gorffennaf 2026.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion

Eitem 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 20 Mai

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 20 Mai gyda mân ddiwygiadau.

Eitem 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu a Phenderfyniadau

3. Adolygwyd y Cofnod Gweithredu a Phenderfyniadau.

Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

4. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a rhoi ddiweddariad ar unrhyw faterion a oedd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd CNC wedi cynnal cyfarfod y Corff Cadwraeth Natur Statudol yng Ngogledd Cymru ym mis Mehefin, ac atgoffwyd y Bwrdd y byddai'r Athro Rhys Jones yn cynrychioli CNC ar y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur o hyn allan. Tynnodd y Cadeirydd sylw at gyfarfodydd gyda Chadeiryddion y ddau gwmni dŵr, Dŵr Cymru (DC) a Hafren Dyfrdwy (HD), a Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU). Byddai'r berthynas rhwng NFU a CNC yn cael ei datblygu ymhellach, i gefnogi ffermwyr ond hefyd i barhau i'w dwyn i gyfrif drwy rôl reoleiddio CNC. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cwrdd â Chadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru ac wedi mynychu cyfarfod y Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus.
5. Roedd y broses o recriwtio'r Prif Weithredwr newydd wedi dechrau, a byddai'r Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf. Cafodd cydweithwyr eu canmol am eu gwaith yn ystod Sioe

Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS), ac roedd hyn wedi bod yn gyfle da i'r Cadeirydd gwrdd ag ystod ehangach o gydweithwyr. Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am ei harweinyddiaeth, a adlewyrchwyd yn yr adborth yr oedd y Cadeirydd wedi'i gael gan gydweithwyr a rhanddeiliaid.

6. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cynnal ymweliadau safle ledled Cymru gan gynnwys y Trallwng, Coedwig Ceri, Cronfa Ddŵr New Pool a Chynllun Amddiffyn rhag Llifogydd y Drenwydd.
7. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl gydweithwyr a oedd wedi bod yn gweithio'n ddiplino ar y tanau gwyllt diweddar, a gofynnodd am gael mynegi diolch iddynt gan y Bwrdd. Byddai cyfleoedd yn cael eu canlyn i gyfathrebu â thimau lleol wedi'u henwebu i weithio ar ddigwyddiadau wrth gefnogi'r gymuned. Mynegodd y Cadeirydd rwystredigaeth bod cydweithwyr yn cael eu trolïo ar y cyfryngau cymdeithasol a nododd y gellid bod angen ailedrych ar y dull seiliedig ar Le pe bai hyn yn parhau.

Eitem 4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

8. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem gan dynnu sylw at faterion allweddol. Ategodd y Prif Weithredwr y diolch i'r holl gydweithwyr fu'n gweithio ar y tanau gwyllt, a nododd fod hyn wedi'i gyfleu wrth gydweithwyr drwy e-bost diweddaru'r Prif Weithredwr a galwad Diweddaru Misol y Rheolwyr. Pwysleisiwyd bod y trolïo a'r sylwebaeth negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod Polisi a Gweithdrefn y Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu hadolygu i ystyried pa gamau pellach y gellid eu cymryd. Byddem yn parhau i ddilyn y dull sy'n canolbwyntio ar Le, ond yn cymryd camau priodol pe bai'r ffordd hon o weithio yn cael ei cham-drin.
9. Roedd y Prif Weithredwr wedi siarad ar banel arweinyddiaeth ar gyfer uwchgynhadledd Biodiversity and Business Live yng Nghaeredin, ac roeddent wedi cael gwahoddiad i gynnal eu sesiwn nesaf yng Nghymru yn 2027. Byddai CNC yn cynnal y sesiwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a byddai'n gyfle da i gynnal trafodaeth ar daro cydbwysedd rhwng sicrhau amgylchedd cynaliadwy a thyfu'r economi ar yr un pryd.
10. Yn ddiweddar, dyfarnwyd achrediad Arian y Sefydliad Llythrennedd Carbon i CNC, ond y nod nesaf fyddai ennill yr achrediad Aur. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn derbyn hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd, a byddai Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn darparu manylion y cwrs hwnnw i'r aelodau.

GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ddarparu manylion yr hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd i'r Bwrdd.

11. Amlinellodd y Prif Weithredwr beth oedd prif gyfrifoldeb CNC yn ystod digwyddiadau tân gwyllt, sef cefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar y tir a reolir gan CNC. Yn ystod digwyddiadau'r tanau gwyllt, roedd gan CNC fynediad at wasanaeth hofrennydd ar gontract, ond adnodd a oedd yn cael ei ddefnyddio ar draws y DU oedd hwn, ac roedd y gwasanaeth ar gael i sefydliadau eraill ledled y DU, gyda threfniadau i flaenoriaethu ar waith. Roedd cydweithwyr mewnol wedi bod yn cefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub drwy

weithgarwch rheoli tir, cyfathrebiadau, y cyfryngau cymdeithasol a rhoi'r hofrennydd ar waith pan oedd ar gael.

12. Diolchodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle i'r cydweithwyr am eu hymateb i'r tanau gwyllt diweddar, a nododd fod rhanddeiliaid hwythau wedi mynegi diolch. Bu pwysau gweithredol sylweddol, gan gynnwys tanau gwyllt mewn ardaloedd eraill, a gyfrannodd at gyfnod dwys ac anodd i'n cydweithwyr. Yn dilyn y sylw negyddol yn y cyfryngau wrth gyfeirio at yr hofrennydd, roedd Aelodau'r Senedd wedi cael gwybod am rolau a chyfrifoldebau CNC mewn achosion o danau gwyllt. Paratôdd y tîm Cyfathrebu friff i Aelodau'r Senedd er mwyn cywiro'r camwybodaeth. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen i'r cyfryngau gael eu briffio'n ddigonol ynghylch rolau a chyfrifoldebau CNC. Hysbyswyd y Bwrdd bod y ffocws ar y digwyddiadau hyn wedi effeithio waith busnes fel arfer a chyllidebau.
13. Tynnwyd sylw at fuddsoddiad CNC er mwyn addasu i'r newid hinsawdd ar y tir yr oedd yn ei reoli. Roedd hyn yn cynnwys beth i'w blannu a phryd, dylunio llinellau tân, hyfforddi cydweithwyr a chymorth o'r awyr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd perthnasoedd hefyd wedi cael eu meithrin o fewn cymunedau a chyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd y disgwyliadau o ran y cymorth o'r awyr wedi bod yn uwch eleni na'r hyn a oedd yn bosibl, ac roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng CNC a Phenaethiaid y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu dull gwell ar raddfa Cymru gyfan o roi cymorth o'r awyr. Roedd opsiynau byrdymor yn parhau i gael eu harchwilio ac ystyried y risgiau parhaus.
14. Tynnodd y Prif Weithredwr hefyd sylw at y ffaith bod statws sychder wedi'i ddatgan ar gyfer rhannau o Ogledd a De-ddwyrain Cymru yn sgil pryderon ynghylch lefelau afonydd. Sicrhawyd y Bwrdd bod lefelau'r cronfeydd dŵr yn ddigonol ar hyn o bryd, ond roedd y cwmnïau dŵr yn annog defnydd priodol o ddŵr er mwyn cynnal hyn. Byddai mwy o waith yn digwydd i fonitro lefelau afonydd, ynghyd â chynnydd mewn gwaith rheoleiddio ar dynnu dŵr. Gellid gweithredu mesurau pe bai lefelau'r afonydd yn gostwng ymhellach, gan gynnwys rhyddhau o gronfeydd dŵr.
15. Nodwyd adolygiad amlddisgyblaethol y Prif Weinidog o'r tanau gwyllt yng Nghymru. Awgrymwyd y gallai CNC edrych ar brosesau gwledydd eraill i lywio ymateb CNC ymhellach o hyn allan. Sicrhawyd y Bwrdd y byddai'r cydweithio effeithiol â gwledydd eraill y DU yn parhau, gan gynnwys datblygu strategaeth tanau gwyllt ar gyfer y DU gyfan. Roedd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a Lloegr yn cyfarfod yn rheolaidd, a byddai trafodaethau yn digwydd gyda phartneriaid Ewropeaidd hefyd. Byddai'r gwersi a ddysgwyd yng Nghymru hefyd yn cael eu bwydo'n ôl i Lywodraeth y DU drwy LIC. Awgrymwyd hefyd y dylai'r drafodaeth amlddisgyblaethol yng Nghymru ganolbwyntio ar bob digwyddiad difrifol, nid tanau gwyllt yn unig.
16. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch datblygu strategaeth ar gyfer atal tanau gwyllt, eglurwyd bod gan CNC ymgyrch barhaus a oedd yn cynnwys addysgu'r cyhoedd ynghylch sut y gallent helpu i atal y tanau. Roedd Penaethiaid Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru hefyd yn hysbysu cymunedau lleol am eu rôl er mwyn lleihau'r risg o danau gwyllt.
17. Awgrymwyd trafodaeth ar ansawdd dŵr, gan gynnwys a oedd gan CNC yr adnoddau cywir i ddelio â hyn yn ddigonol neu a oedd angen newid y dull. Sicrhawyd y Bwrdd fod hyn yn

dal i fod yn flaenoriaeth bwysig i CNC ac roedd ardaloedd penodol yn cael eu defnyddio fel gwelyau prawf fel yn Ne-orllewin Cymru.

18. Roedd cynllun ymarfer digwyddiad wedi'i ddatblygu. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol drafodaeth flynyddol ar ddull strategol CNC o ymateb i ddigwyddiadau, gyda ffocws ar gydnerthedd ac atal. Derbyniodd y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain hefyd hyfforddiant Gold Command ar y cyd chyrrff cyhoeddus eraill fel Rheolwyr Strategol ar Ddyletswydd, a bu CNC yn gweithio ar draws fforymau cydnerthedd lleol hefyd. Oherwydd cyflymder effeithiau newid yr hinsawdd, roedd CNC yn awyddus i gynnal ymarferion dyfnach â phartneriaid.
19. Roedd angen ystyried adfer cynefinoedd oherwydd gallai hyn greu amryw o fuddion drwy fynd i'r afael â llifogydd, ansawdd dŵr, sychder a thanau gwyllt. Gallai CNC fod yn arloesol ac yn feiddgar a dangos yr hyn a oedd yn bosibl drwy reoli tir mewn ffordd wahanol. Roedd timau ar draws cyfarwyddiaethau yn gweithio ar y cyd i adolygu Datrysiadau sy'n Seiliedig ar Natur, gan addasu i'r holl effeithiau newid hinsawdd ac ystyried y cyd-destun ehangach.
20. Holwyd beth oedd rolau a phwerau CNC o ran camgysylltiadau'n gysylltiedig â dŵr ymdrochi, a chytunwyd bod angen gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i sicrhau bod camgysylltiadau'n cael eu hunioni.
21. Gofynnwyd am yr amrywiaeth o resymau pam mae CNC yn gwrthwynebu ffermydd gwynt Canolbarth Cymru, yn benodol sut oedd CNC yn taro cydbwysedd rhwng ei wahanol rolau a chyfrifoldebau wrth ymateb i ddatblygiadau seilwaith. Wrth adolygu'r ceisiadau hyn, byddai CNC yn adolygu'r effeithiau gweledol a'r ystyriaethau amgylcheddol ehangach i ganfod yr ateb cyffredinol mwyaf priodol. Roedd CNC yn eiriol dros well cynllunio strategol ar lefel genedlaethol i roi cyfeiriad clir ynghylch lleoliad datblygiadau yn y dyfodol.
22. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd ei bod hi bob amser yn her canfod adnoddau ar gyfer gwaith ynni adnewyddadwy yn gysylltiedig â chynllunio. Byddai CNC yn parhau i ofyn i LIC am fwy o gefnogaeth er mwyn sicrhau y gallai CNC gyflawni ei rôl yn hwyluso datblygu cynaliadwy er ffyniant Cymru. Cafodd y Bwrdd wybod bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC ystyried gostyngiadau i'r gyllideb. Cadarnhawyd y byddai hyn yn anodd ond y byddai blaenoriaethau'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yn cael eu hadolygu cyn y trafodaethau sydd ar ddod â Llywodraeth Cymru.

Eitem 5. Adroddiad Diweddarau'r Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)– 4 Mehefin ac 8 Gorffennaf

23. Nododd Mair Gwynant mai'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol fu'r prif ffocws yn nau gyfarfod ARAC, gydag ARAC yn eu cymeradwyo ym mis Gorffennaf cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y newidiadau i broses y fframwaith rheoli risg, a oedd yn ei symleiddio ond hefyd yn ymwreiddio perchnogaeth ar risg ar draws y sefydliad; dylai defnyddio dangosfyrddau PowerBi fod o gymorth yn hyn o beth. Roedd ET wedi dechrau cynnal archwiliadau dwfn o'r Risgiau Strategol, a byddai ARAC

yn goruchwyllo'r gwaith ac yn ceisio sicrwydd bod yr archwiliadau dwfn yn effeithiol. Drwy'r ffordd newydd hon o adolygu'r Risgiau Strategol gellid sicrhau fframwaith sicrwydd priodol i'r Bwrdd.

Y Pwyllgor Cyllid – 2 Gorffennaf

24. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd Helen Pittaway sylw at y prif drafodaethau yn y cyfarfod. Roedd dau gais am gymeradwyaeth ariannol wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cyllid, y naill yn gais i gynyddu'r gyllideb ar gyfer y Prosiect Amnewid Telemetreg, er mwyn sicrhau y gellid ei gwblhau. Roedd angen cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r Prosiect hwn a'i drafod ymhellach yn y Pwyllgor Cyllid. Roedd Prosiect Eogiaid Yfory 2 hefyd wedi cael ei drafod a'i herio gan y Pwyllgor, gan fod angen cynnal dadansoddiad cost-budd. Cynhaliwyd sesiwn hefyd ar raglenni gan fod y rhain bellach yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid.

Y Pwyllgor Pobl – 24 Mehefin

25. Nododd Mark McKenna fod cyfarfod y Pwyllgor Pobl ym mis Mehefin wedi'i gynnal yn y cnawd, gan roi amser i aelodau'r Bwrdd gael cysylltu â'r tîm Pobl. Cafwyd diweddariad ar Fro'r Sgydau yn dilyn ymweliad safle'r Pwyllgor Pobl fis Medi diwethaf. Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft wedi'i gyflwyno a sesiwn wedi'i chynnal â'r Undebau Llafur. Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg wedi cael ei dderbyn ac roedd y Pwyllgor Pobl yn cydnabod bod angen gwella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad.
26. Gofynnodd y Bwrdd a allai'r Adroddiad ganolbwyntio ar y modd y gallai defnyddio'r Gymraeg wneud i CNC weithio'n wahanol a gwella mewn rhai meysydd. Cyflwynwyd Prosiect Teifi Fyw fel enghraifft dda o ddefnyddio'r Gymraeg gan ganolbwyntio hefyd ar ddiogelu natur. Mewn ymateb i hyn, eglurwyd bod Strategaeth y Gymraeg yn cael ei datblygu.

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 11 Mehefin

27. Rhoddodd Adam Taylor brif uchafbwyntiau'r cyfarfod Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Trafodwyd hysbysiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gyda rhestr estynedig o safleoedd arfaethedig. Trafodwyd materion yn gysylltiedig â SoDdGA hefyd, fel tanau gwyllt. Roedd y Strategaeth 30 erbyn 30 wedi cael ei chyflwyno; ac roedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni hyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd na allai CNC gyflawni 30 erbyn 30 ar ei ben ei hun a bod angen iddo gydweithio â phartneriaid.

Y Pwyllgor Cyflawni Strategol - 13 Gorffennaf

28. Atgoffodd Dr. Pete Fox holl aelodau'r Bwrdd fod croeso iddynt ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni Strategol. Roedd y Pwyllgor Cyflawni Strategol wedi edrych ar Gynllunio a Pherfformiad Corfforaethol, a chytunwyd mai rôl y Pwyllgor fyddai adolygu agwedd gynllunio'r cylch cyflawni. Roedd y Pwyllgor Cyflawni Strategol wedi nodi'r diffyg metrigau yn y Strategaeth 30 erbyn 30. Trafodwyd perfformiad cwmnïau dŵr hefyd, a byddai ymateb ar y cyd i adolygiadau Cunliffe, Fingleton a Corry yn cael eu cyflwyno gerbron i Bwrdd i'w cymeradwyo.

Fforwm Rheoli Tir Cymru - 6 Mehefin

29. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru - 7 Gorffennaf

30. Dywedodd Lesley Jones y byddai nodiadau o'r cyfarfod ar gael yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Roedd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru wedi trafod mannau gwyrdd trefol a hygyrch, gan greu llawer iawn o ddiddordeb. Roedd cysylltiadau da hefyd wedi'u creu i'r rhanddeiliaid.

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr a Chyflwynydd: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

- 31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Perfformiad Ch1 a'r newid i'r rhagolygon. Adroddwyd ar ddiwedd Ch3 fod cynnydd yn yr incwm o Goed. Fodd bynnag, arhosodd y rhagolwg yr un fath.
- 32. Roedd y duedd mewn gwariant ychydig ar y blaen, sef £36.2 miliwn, a oedd 3% yn uwch na'r proffil gwariant arfaethedig oherwydd prosiectau staff a chyfalaf. Roedd darpariaeth ganolog i dalu'r costau staff ychwanegol, gan gynnwys y dyfarniad cyflog ac unrhyw addasiadau i gyllidebau agoriadol y staff. Roedd £2.6 miliwn wedi'i or-raglennu, a oedd wedi'i ostwng o £3 miliwn yn y gyllideb wreiddiol.
- 33. Roedd gor-raglennu wedi cynyddu ym Mhortffolio'r Rhaglen Argyfyngau Natur a Hinsawdd (NaCE) i £4 miliwn, ac roedd gostyngiad i hyn wedi'i gynllunio drwy gydol y flwyddyn. Roedd y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd hefyd wedi'i chynyddu i gyfanswm o £2 filiwn. Roedd y tîm eisiau osgoi unrhyw orwariant annisgwyl tua diwedd y flwyddyn. Trafododd y Bwrdd resymau dros danwariant blaenorol yn y Rhaglen Llifogydd, gan gynnwys ailddyrannu adnoddau diweddar a mwy o or-raglennu i sicrhau defnydd llawn o'r cyfalaf sydd ar gael.
- 34. Roedd recriwtio wedi gwella gyda sgoriau ymgysylltu cadarnhaol, ac ymdrech barhaus i wella cyfraddau cadw gan fonitro'r effaith ar gyllid.
- 35. Trafododd y Bwrdd ymgorffori mwy o Atebion Seiliedig ar Natur mewn gwariant cyfalaf llifogydd er mwyn sicrhau canlyniadau a fyddai'n creu amryw o fuddion a lliniaru tanwariant posibl.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y rhagolygon o £320.6m i £322.4m.

Eitem 7. Datganiad Caethwasiaeth Fodern Blynyddol

Noddwr a Chyflwynydd: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (CCM)

- 36. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol CCM y Datganiad Caethwasiaeth Fodern Blynyddol a'r Ymrwymadau i Atal Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: Cynllun Pum

Mlynedd (2026-31). Sicrhawyd y Bwrdd fod trafodaeth gadarn wedi'i chynnal yn y Pwyllgor Pobl.

37. Trafododd y Bwrdd sut y byddai'r Cynllun yn mesur y gwelliant a'r gostyngiad mewn risgiau Caethwasiaeth Fodern. Byddai'r Cynllun yn anelu i ddangos y gwahaniaeth y byddai'n ei wneud dros y blynyddoedd nesaf drwy waelodlin. Byddai'n ymchwilio'n ddyfnach i gadwyni cyflenwi, yn symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth, ac yn mesur effaith wirioneddol. Tynnwyd sylw at y mesurau cymharol yn erbyn chwaer sefydliadau ym mlynyddyn gyntaf y Cynllun.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern Blynyddol 2026-27 a'r Ymrwymadau i Atal Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: Cynllun Pum Mlynedd (2026-31).

Eitem 8. Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch

Noddwr: Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

38. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a Fflyd yr Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch a Dysgu a Datblygu ar gyfer 2025-26 a chanmol y tîm a'r cydweithwyr ehangach am flaenoriaethu Llesiant, Iechyd a Diogelwch ym mhob agwedd ar eu gwaith.
39. Tynnodd y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch sylw at agweddau ar yr Adroddiad, gan gynnwys mwy o ymgysylltu o ran adrodd am beryglon, gan dynnu sylw at y ffaith bod sawl menter Llesiant wedi'i chynnal, a bod 316 o gyrsiau hyfforddi Llesiant, Iechyd a Diogelwch wedi'u cyflwyno ym mhob rhan o CNC.
40. Bu'r Bwrdd yn trafod risgiau Coedwigaeth a manteision cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys meincnodi gyda Forestry Scotland, Forestry England, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) i rannu arferion gorau a data drwy gyfarfodydd chwarterol. Fodd bynnag, trafodwyd nad oedd risgiau mewn Coedwigaeth yn anochel, a bod CNC yn gweithio i wella safonau diogelwch, gan ddysgu gwersi o'r diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi.
41. Bu'r Bwrdd yn trafod y materion Cerbydau Trydan (EV) a amlygwyd yn yr Adroddiad, gan gynnwys pryder ymhlith y staff ynghylch cwrpas cerbydau, a'r ansicrwydd yn gysylltiedig â defnyddio ceir awtomatig. Cytunwyd y byddai categori EV yn cael ei ychwanegu at yr Adroddiad i sicrhau na fyddai ymholiadau penodol am EV yn diflannu i gategoriâu data eraill wrth i'r busnes drosglwyddo i geir EV.
42. Trafododd y Bwrdd straen yn y gweithle a'r ymdrechion i ddadansoddi'r achosion, gan gynnwys hyrwyddo atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol drwy'r Diweddariadau Misol i Reolwyr, ac ymgysylltu â grwpiau gweithwyr i ymdrin â'r achosion wrth wraidd hynny.
43. Nodwyd y defnydd o'r System Rheoli Dysgu (LMS), a bod angen ffocws pellach ar y defnydd o fersiwn Gymraeg yr LMS. Trafododd y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch gynlluniau i wella gwaith adrodd am ddysgu a datblygu, cynllunio olyniaeth a rheoli talent

cynnar, gyda'r nod o wella cyfraddau cadw a datblygiad gyrfa o fewn CNC. Cadarnhawyd y byddai adroddiad chwarterol ar hyfforddiant yn cael ei lunio a'i rannu â'r Bwrdd.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch a Dysgu a Datblygu ar gyfer 2025-26.

Eitem 7. Diweddariad Chwarterol Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes - Ch1

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth (dirprwywyd gan Ceri Davies, Prif Weithredwr)

Cyflwynwyr: Arweinwyr Amcanion Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni

44. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem a chyflwyno Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch1. Nodwyd bod gwaith dwys pellach ar y gweill ar fesurau canlyniad, Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ac adroddiadau rheoli perfformiad. Cafodd y Bwrdd sicrwydd fod gwaith yn digwydd ar gyflymder i wella'r mesurau canlyniadau a'r adroddiadau a bod gwaith i gyflawni'r Cynllun Busnes ar y trywydd iawn.
45. Drwy'r Tîm Gweithredol a'r Grŵp Portffolio cafwyd ffocws ar ddysgu o ymrwymïadau â sgôr Gwyrdd a chadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol y byddai unrhyw uchafbwyntiau yn cael eu cyflwyno drwy Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd, gydag adroddiadau pellach yn dod drwy'r platfform PowerBi.
46. Tynnodd y Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni sylw at y cynnydd a wnaed o ran ymrwymïadau yn y sgôr Ambr, yr oed gan bob un ohonynt lwybrau manwl tuag at sgôr Gwyrdd.
47. Nodwyd Cadwraeth Natur gan y Bwrdd fel maes sy'n peri'r pryder mwyaf oherwydd diffyg offer a chyllid rheoleiddio i ddatrys problemau. Er gwaethaf heriau gweithredol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle ymdrechion i roi'r flaenoriaeth i hyfforddi staff. Heriodd y Bwrdd y Tîm Gweithredol i osod targedau mwy uchelgeisiol lle bo'r llwybr tuag at wyrdd o fewn cylch gwaith CNC a blaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny.
48. Trafodwyd effaith adnoddau ychwanegol ar gynllunio a thrwyddedu, gan nodi y gallai gymryd hyd at ddwy flynedd i welliannau gael eu hadlewyrchu mewn metrigau.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Ch1 Cynllun Busnes 2026/27.

Eitem 9. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd

49. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol sylw at y drafodaeth strategol ynghylch y tanau gwyllt diweddar, a gofynnodd i'r Bwrdd fod yn ystyriol o'r dull strategol yn ystod y gaeaf.

Eitem 10. Unrhyw Fater Arall

50. Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

Cloi'r Cyfarfod Cyhoeddus

Cofnodion Camau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus

Log Gweithredu - Cyfarfodydd y Bwrdd										
Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
14	Cyhoeddus	29/07/2026	4	10	Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol	GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ddarparu manylion yr hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd i'r Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth	22/09/2026	Cwblhawyd	Rhestr o ddyddiadau a ychwanegwyd at y System Rheoli Dysgu a ddosbarthwyd i aelodau'r Bwrdd.

Log Penderfyniadau - Cyfarfodydd y Bwrdd						
Rhif y Penderfyniad	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Penderfyniad
52	Cyhoeddus	29/07/2026	6	35	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y rhagolwg o £320.6m i £322.4m.

53	Cyhoeddus	29/07/2026	7	37	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern 2026-27 a'r Ymrwymadau i Atal Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: Cynllun Pum Mlynedd (2026-31).
54	Cyhoeddus	29/07/2026	8	43	Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd	PENDERFYNIAD: Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch a Dysgu a Datblygu ar gyfer 2025-26.
55	Cyhoeddus	29/07/2026	9	48	Prys Davies Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Perfformiad Ch1 Cynllun Busnes 2026/27.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2026
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	26-09-B06
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

1. Mae'r cyfnod ers ein cyfarfod bwrdd diwethaf wedi bod yn dawelach i rai, gan fod llawer o gydweithwyr wedi cymryd seibiannau haf haeddiannol i deithio a threulio amser gyda theuluoedd. I eraill, mae wedi parhau i fod yn brysur iawn, wrth i ni barhau i ymateb i danau gwyllt ledled Cymru ac effaith ehangach tonnau gwres yr haf ar natur a'r amgylchedd. Mae ein timau wedi gweithio'n anhygoel o galed i gefnogi'r gwasanaethau tân ac achub, ymateb i ddigwyddiadau, a chynnal ein gwasanaeth busnes fel arfer. Wrth i ni fynd i gyfnod tawelach a gwlypach, rydym yn gofyn i gydweithwyr gymryd amser i orffwys yn iawn, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn wydn ac yn ymatebol fel sefydliad dros y misoedd nesaf. Mae gwaith rhai timau bellach fis ar ei hôl hi; byddwn yn dod â thrafodaeth strategol i'r bwrdd i ystyried gwytnwch ein gwasanaethau, costau'r digwyddiadau, a chostau cyfleoedd coll wrth i ni weld digwyddiadau fel y rhain yn cynyddu yn y dyfodol.
2. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llantwd yn wythnos gyntaf mis Awst. Mynychais am ddau ddiwrnod, ochr yn ochr â'r cadeirydd, a threuliais amser ar ein stondin yn cwrdd â chynrychiolwyr etholedig, rhanddeiliaid, ac aelodau o gymunedau lleol. Fel gyda Sioe Frenhinol Cymru, mae hwn yn uchafbwynt ein haf ac yn gyfle amhrisiadwy i gael adborth ac ymgysylltu â phobl mewn amgylchedd llai ffurfiol. Roeddem wrth ein bodd yn croesawu'r Prif Weinidog i'n stondin i esbonio mwy am y gwaith a wnawn a'i bwysigrwydd i wydnwch yr amgylchedd er mwyn cefnogi llesiant a ffyniant Cymru. Roedden ni'n gallu arddangos gwaith ein cydweithwyr drwy'r arddangosfeydd ar ein stondin.
3. Diolch eto i'r holl gydweithwyr sy'n gweithio mor galed i baratoi ein stondin a chynrychioli CNC mor broffesiynol yn ystod y digwyddiad. Fel sefydliad a gwasanaeth dwyieithog, mae'n hyfryd cael arddangos yn Gymraeg yn y dathliad pwysig a llawen hwn o ddiwylliant, creadigrwydd ac iaith Cymru. Diolch yn fawr iawn!

4. Hefyd ym mis Awst, cefais fy sgwrs reolaidd gydag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, yr Athro Lynda Warren, a galwad gyflwyniadol gyda Paul Frammingham, Prif Swyddog Gweithredol dros dro'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio. Gwnaeth Paul sylwadau ar y berthynas ardderchog sydd gan ein timau â'i gilydd. Trafodwyd sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru yn ddiweddar, a fydd yn cymryd drosodd rhywfaint o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio mewn cysylltiad â diogelwch tomenni. Mae'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn cefnogi trosglwyddiad rheoledig o waith ac adnoddau i Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru. Wedi hynny, cyfarfûm â Christina Harrhy, Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru, am drafodaeth gychwynnol am yr amserlenni tebygol a'r meysydd ffocws cynnar ar gyfer eu hymgysylltiad ag CNC. Mae Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru i fod i ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2027, a byddwn yn ystyried gyda nhw'r ffordd orau o gyflawni'r gwaith sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir ar y tir rydyn ni'n ei reoli.
5. Ar ddiwedd mis Awst, treuliais ddiwrnod gyda thimau yn y Gogledd-ddwyrain, yn ymweld â safleoedd lleol i drafod effaith gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon ar ansawdd dŵr, a dysgu mwy am Fawnogydd Fenn's, Whixall a Bettisfield, Gwarchodfa Natur Genedlaethol sy'n ymestyn dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ymunodd cydweithwyr o Natural England â ni, sy'n cydreoli'r safle hwn gyda ni. Diwrnod gwlyb oedd hi, ond dangosodd y cyferbyniad llym rhwng yr amrywiol arlliwiau o wyrddni a ffawna a oedd i'w gweld yn y corsydd a'r ddaear sych o'u cwrpas bwysigrwydd enfawr yr ardaloedd hyn yn ein brwydr yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.
6. Yn ystod mis Medi, cyfarfûm â Dr Kate Roberts o Cadw ar gyfer ymweliad safle yn Abaty Tyndyrn gyda rhai o'i thîm. Rydym yn gweithio'n agos gyda Cadw ar amrywiol safleoedd sydd o bwys amgylcheddol a threftadaeth, a hefyd gyda Heneb lle mae diddordeb archaeolegol. Mae ein gwaith adfer mawndiroedd yn faes sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol gan fod mawndiroedd yn cael eu cydnabod fwyfwy fel ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol ac archaeolegol, ac rydym yn gweithio'n galed i ddod o hyd i ffyrdd effeithlon o gydweithio ar brosiectau lle mae angen diogelu nodweddion treftadaeth ac archaeolegol. Ar yr ymweliad hwn, roedd gen i ddiddordeb mewn clywed am waith Cadw i atgyweirio a gwarchod gwaith maen yr abaty, sydd wedi'i hindreulio, a mapio'r bensaerniaeth i gefnogi gwaith cadwraeth yn y dyfodol.
7. Cyfarfu'r tîm gweithredol a minnau hefyd â'r tîm gweithredol yn Dŵr Cymru ar gyfer sesiwn waith ar y cyd arall. Byddaf hefyd yn mynychu cyfarfod Bwrdd Hafren Dyfrdwy yn ystod mis Medi; mae hwn yn wahoddiad blynyddol sy'n caniatáu i ni siarad am eu perfformiad amgylcheddol a chynnal ein perthynas waith dda â nhw.
8. Yn ystod mis Awst a mis Medi, rydym wedi parhau â'n gwaith i adnewyddu ein cynllun corfforaethol i adlewyrchu amcanion llywodraeth newydd Cymru. Mae'r cydlyniad hwn yn hanfodol bwysig i'n gwaith, ac rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'n tîm noddi o Lywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn deall disgwyliadau a blaenoriaethau ein gweinidog a'i swyddogion. Mae'r adnewyddiad wedi rhoi cyfle i ni adolygu ein hamcanion llesiant a sefydlu mesurau perfformiad allweddol fel y gallwn ddangos cynnydd, cyflawniad ac effaith yn haws. Rydym yn bwriadu rhannu'r cynllun corfforaethol gydag Aelodau o'r Senedd mewn digwyddiad ymgysylltu yn y Pierhead ddechrau mis Tachwedd.

9. Ym mis Medi, ymddeolodd ein Pennaeth Cyllid, Rob Bell, ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ymroddedig o fewn CNC a'n sefydliadau rhagflaenol. Mae wedi bod yn eithriadol yn ei rôl, yn gyson a thawel wrth ymdrin â chymhlethdodau cyfrifyddu cyllid cyhoeddus, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r arian cyhoeddus a ddyfernir i ni. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo. Bydd Catherine Allan yn camu i swydd Pennaeth Cyllid dros dro nes bod recriwtio parhaol yn digwydd.

Diweddariadau Strategol

Uchelgais Gogledd Cymru

10. Rydym wedi parhau â'n hymgysylltiad ag Uchelgais Gogledd Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio strategol, datblygu a thrwyddedu ledled y Gogledd. Yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda'u Prif Swyddog Gweithredol, Alwen Williams, cyfarfu ein Cyfarwyddwr Gweithredol dros Weithrediadau (Lle), Lyndsey Rawlinson, ac aelodau o'i thîm arwain â thîm uwch-reolwyr Uchelgais Gogledd Cymru am drafodaeth agored, onest ac adeiladol a oedd yn canolbwyntio ar sut y gallwn gydweithio i hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy a blaenoriaethau ehangach y rhanbarth. Gobeithiwn y bydd deialog gynnar ar brosiectau pwysig a dealltwriaeth ar y cyd o'r prosesau sy'n berthnasol yn helpu i atal ffrithiant diangen rhwng datblygu economaidd, natur a'r amgylchedd.

Diweddariadau Gweithredol

Diweddariad ar Danau Gwylt

11. Mae Cymru wedi profi nifer o danau gwylt sylweddol dros yr wythnosau diwethaf sydd wedi arwain at gyhoeddi digwyddiadau mawr amlasiantaeth (yn ychwanegu at y rhai a gafwyd yn gynharach yn y flwyddyn). Fel ymatebydd Categori 1, perchennog tir a rheolwr tir ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ledled Cymru, rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaeth tactegol a strategol ac yn cefnogi ymateb cydlynol. Gweler yr atodiad ynghlwm am fwy o fanylion am raddfa, rheolaeth ac effeithiau'r tanau gwylt.

Gorchymyn Sychder Afon Hafren

(Mae hwn yn fater dynamig a gall newid rhwng cyflwyno'r diweddariad a chyfarfod y bwrdd.)

12. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi bod â chyfrifoldeb ar y cyd am gynllunio ar gyfer sychder yn nalgylch afon Hafren ers mis Ebrill 2013. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd gyfrifoldeb yn Lloegr a ninnau gyfrifoldeb yng Nghymru am liniaru effeithiau sychder ar bobl, busnesau a'r amgylchedd drwy reoli adnoddau dŵr yn gall.
13. Ym mis Awst, gwnaeth CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd gais i Lywodraeth Cymru a DEFRA yn y drefn honno am orchymyn sychder ar gyfer afon Hafren. Gwnaed y cais – y cyntaf o'i fath a wnaed gan CNC – mewn ymateb i amodau sych hirfaith a lefelau dŵr eithriadol o isel yng nghronfa ddŵr Llyn Clywedog ac ar draws dalgylch afon Hafren. Mae'r mesurau dros dro arfaethedig wedi'u cynllunio i warchod adnoddau dŵr strategol ar draws system afon Hafren, lleihau'r risg o wacáu

cronfeydd dŵr, a helpu i gynnal llifau afonydd hanfodol, amddiffyniad i'r amgylchedd a chyflenwadau dŵr cyhoeddus.

14. Byddai'r gorchymyn yn galluogi gostyngiad mewn gollyngiadau o Lyn Clywedog, targedau llif rheoleiddiedig is ar afon Hafren, a gostyngiad cychwynnol o 5% mewn tynnu dŵr gan gwmnïau dŵr. Y pwrpas yw rheoli'r dŵr sydd ar gael yn fwy cynaliadwy drwy weddill y cyfnod o sychder, gan gydnabod y disgwylir i ganiatáu llif afon is nawr ddarparu mwy o amddiffyniad i adnoddau dŵr, ecosystemau a chyflenwadau dŵr yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rydym ni ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried hwn yn fesur rhagofalus ac yn ddewis olaf i leihau'r risg o ganlyniadau amgylcheddol a gweithredol mwy difrifol.
15. Mae asesiadau cyfredol yn dangos y disgwylir i effeithiau gweithredu'r gorchymyn yng Nghymru fod yn gyfyngedig a dros dro. Byddai'r prif gyfyngiadau'n syrthio ar gwmnïau dŵr yn hytrach na busnesau, amaethyddiaeth neu ddefnyddwyr unigol, er y gallai cwmnïau dŵr ddewis cyflwyno mesurau rheoli galw ychwanegol yn unol â'u cynlluniau sychder. Ein hasesiad yw y bydd y gorchymyn yn helpu i amddiffyn cynefinoedd afon pwysig, poblogaethau pysgod a safleoedd amgylcheddol dynodedig wrth gefnogi cydnerthedd parhaus cyflenwadau dŵr cyhoeddus ar draws dalgylch afon Hafren.
16. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr (gan gynnwys Hafren Dyfrdwy, United Utilities, Severn Trent Water, South Staffordshire Water a Bristol Water) a rhanddeiliaid eraill (megis Glandŵr Cymru a Natural England) wrth i'r cais fynd rhagddo. Mae'r rhagolygon cyfredol yn dangos risg barhaus o amodau sych a phwysau parhaus ar adnoddau dŵr yn ystod yr wythnosau nesaf. Bwriad y gorchymyn arfaethedig yw darparu hyblygrwydd ychwanegol i reoli'r risgiau hyn a chefnogi ymateb cydlynol. Mae cymeradwyaeth amserol yn parhau i fod yn bwysig er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r mesurau, gan gydnabod bod y broses ymgeisio yn caniatáu i'r cyhoedd a rhanddeiliaid graffu ar y dystiolaeth a'r cynigion.

Banc Dŵr Pysgodfeydd Afon Tywi

17. Gan weithio gyda Dŵr Cymru i helpu i ddiogelu pysgodfeydd a buddiannau amgylcheddol ehangach ar afon Tywi, fe ddechreuon ni ollwng banc dŵr ym mis Gorffennaf mewn ymateb i'r tywydd sych parhaus. Er bod y cyfaint gollwng yn is na'r hyn sy'n gysylltiedig â gollyngiadau pysgodfeydd traddodiadol yn y gwanwyn neu'r hydref, roedd y dull yn darparu gwelliant cymedrol yn y llif ym mhrif afon Tywi a chynyddu'r llif i lawr yr afon islaw pwynt tynnu dŵr Nantgaredig yng Nghapel Dewi, gan ddyblu llif y dŵr a'r dyfnder cysylltiedig islaw'r pwynt hwn.
18. Rydym wedi ein cyfyngu o ran faint o ddŵr y gellir ei ollwng fel hyn. Er bod angen cyfraddau llif uwch ar rai rhywogaethau o salmonidau, mae angen cyfraddau llif cyson ar wangod/herlod – rhywogaethau pysgod dynodedig ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi – er mwyn silio yn eu lleoliad tua milltir i lawr yr afon o Gapel Dewi.
19. Adolygwyd graddfa'r gollyngiad ar ddiwedd cyfnod cychwynnol o 30 diwrnod, er mwyn pennu'r camau nesaf mwyaf priodol. Nod y dull cadwraethol hwn yw cadw digon o ddŵr o fewn banc dŵr y pysgodfeydd rhag ofn y bydd angen gollyngiad

pysgodfeydd llawn yn yr hydref yn ddiweddarach yn y tymor. Bydd trafodaethau parhaus yn parhau drwy gyfrwng cyfarfodydd rheoli sychder y De-orllewin yn y dyfodol.

20. Er bod y gollyngiad wedi helpu i gynnal tymheredd y dŵr islaw 20 gradd Celsius i ddechrau, cyrhaeddodd tymheredd y dŵr yn rhannau isaf afon Tywi y trothwy hwn ganol mis Awst, gan roi pysgod mewn perygl. Mae pwyllgorau genweirio wedi cytuno'n wirfoddol i roi'r gorau i bysgota ar yr afon nes bod tymheredd y dŵr yn gostwng eto.

Problemau Pla o Bryfed yn Llanelli

21. Tynnwyd yr Hysbysiad Atal Rhannol Rheoliad 37 yn erbyn AMG Resources Ltd yn gynnar ym mis Awst ar ôl cwblhau'r camau gweithredu gofynnol, gan gynnwys cyflwyno canlyniadau monitro pryfed yn wythnosol. Dangosodd cofnodion duedd ar i lawr i lefelau isel iawn ar adeg tynnu'r ataliad yn ôl. Gwellodd y gwaith cynnal cyffredinol ar y safle yn sylweddol yn sgil cael gwared ar wastraff a gludwyd gan y gwynt o bob ardal, a gostyngwyd maint y gwastraff a gedwid ar y safle er mwyn hwyluso gwaith glanhau dwfn a chynhwysfawr ar y seilwaith.
22. Yn ystod archwiliad ym mis Awst, gwelwyd lefelau isel iawn o weithgarwch pryfed, a daeth swyddogion i'r casgliad nad oedd y safle'n debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at bryfed yn yr ardal gyfagos. Mewn cyfarfod dilynol, cadarnhaodd swyddogion iechyd yr amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin eu bod yn derbyn nifer isel o adroddiadau am bryfed yn yr ardal.
23. Mae camau gweithredu sy'n weddill o dan gyfrifoldeb y gweithredwr, gan gynnwys gofyniad i adolygu a diweddarau eu cynllun rheoli plâu ar gyfer y safle i ymgorffori mesurau rheoli ychwanegol, gyda'r nod o leihau'r risg o ddigwyddiadau plâu tebyg yn digwydd yn y dyfodol a sicrhau bod y safle'n cael ei reoli mewn modd sy'n amddiffyn cymunedau lleol a'r amgylchedd. Mae'r gweithredwr wedi gweithio mewn cydweithrediad ag CNC drwyddo draw.

Datgarboneiddio Diwydiannol yn y De

24. Mae De Cymru yn parhau i weld gweithgarwch datgarboneiddio diwydiannol sylweddol, gyda chynnydd ar draws rhaglen drawsnewid Tata Steel Port Talbot, prosiectau dal hydrogen a charbon ym Mhenfro ac Aberdaugleddau, a chyfleoedd seilwaith ynni ehangach sy'n gysylltiedig â Phorthladd Rhydd De Cymru a Bae Abertawe. Mae RWE yn parhau i fod yn fuddsoddwr allweddol yn y trawsnewidiad ynni yn y rhanbarth, gyda phrosiect Hydrogen Gwyrdd Penfro yn symud ymlaen trwy'r broses drwyddedu, Prosiect Storio Batri 350 megawat Penfro yn cael ei adeiladu, a Phrosiect CO₂ Aberdaugleddau yn cadw pwysigrwydd strategol mawr ar gyfer datgarboneiddio De Cymru yn y dyfodol.
25. Atgyfnerthwyd pryderon cynyddol ynghylch capasiti'r rhwydwaith trydan, costau ynni, economeg hydrogen a sicrwydd polisi o ganlyniad i ymgysylltu â'r diwydiant yn ystod mis Gorffennaf, ac mae pob un ohonynt yn cael eu nodi fwyfwy fel rhwystrau i fuddsoddi a chyflawni prosiectau. Yn benodol, codwyd pryderon y gallai oedi wrth ddarparu seilwaith trydan ategol ddod yn gyfyngiad hollbwysig ar brosiectau datgarboneiddio yn y dyfodol. Roedd canslo prosiectau LanzaTech ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau yn rhwystr nodedig ac efallai y bydd yn adlewyrchu heriau

ehangach sy'n effeithio ar hyder buddsoddwyr a hyfywedd rhai prosiectau datgarboneiddio. Yn gyffredinol, mae momentwm ar draws y rhanbarth yn parhau i fod yn gadarnhaol a bydd cyflymder a graddfa'r cyflawni yn dibynnu ar fuddsoddiad parhaus mewn seilwaith galluogi, polisi llywodraeth cefnogol ac amgylchedd buddsoddi sefydlog.

Piblinell Arfordirol y De-ddwyrain

26. Gyda'n cefnogaeth ni, mae Dŵr Cymru wedi sicrhau cymeradwyaeth Ofwat ar gyfer eu cynllun busnes PR24 (Adolygiad Prisiau 2024) ar gyfer cyllid sy'n gysylltiedig ag ysgogiad i wella bioamrywiaeth i ddatrys problemau gyda Piblinell De-ddwyrain Gwastadeddau Gwent (a elwid gynt yn Strategaeth Arfordirol y De-ddwyrain). Cofnodwyd 25 o fethiannau yn y brif bibell dŵr gwastraff 33 cilometr bresennol rhwng gweithfeydd trin dŵr gwastraff Cas-gwent a Threfonnen rhwng 2013 a 2023, gan arwain at dri ar ddeg o ddigwyddiadau llygredd rhwng Cas-gwent a Threfonnen. Yr effaith bresennol ar safleoedd gwarchodedig o fethiannau dro ar ôl tro yn y bibell yw'r cyfiawnhad dros y cyllid gwella.
27. Mae Dŵr Cymru bellach wedi cynnal arfarniad o'r opsiynau ac wedi cyflwyno eu opsiwn a ffeirir, sef adeiladu gwaith trin dŵr gwastraff newydd sy'n gollwng i aber afon Hafren a datgomisiynu darn sylweddol o'r biblinell. Maent yn gweithio gydag Ofwat a gyda ni i benderfynu ar y gofynion rheoleiddio ariannol ac amgylcheddol cyn gwneud cais ffurfiol am y caniatâd perthnasol i fwrw ymlaen.

Kronospan, Y Waun

28. Mae ein hymchwiliadau gorfodi i ddau ddigwyddiad difrifol ar safle Kronospan – torri amodau trwyddedau'n sylweddol ym mis Tachwedd y llynedd a ffrwydrad ym mis Ebrill eleni – yn parhau. Mae'r safle wedi bod yn destun mwy o ddiddordeb gan gynghorwyr lleol ac aelodau'r gymuned, sydd wedi arwain at lefelau uchel o ohebiaeth a niferoedd uchel o gofnodion yn System Cofnodi Digwyddiadau Cymru. Mae'r gwaith o reoleiddio a gorfodi ar y safle wedi gosod galwadau sylweddol ar adnoddau'r tîm. Rydym yn parhau i fynychu cyfarfodydd cyswllt a rhanddeiliaid ac yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r gymuned leol trwy ein cylchlythyr a gwefan Citizen Space.

Safleoedd Gwastraff Anghyfreithlon

29. Mae'r Tîm Gwastraff a Gorfodi yn parhau i ddatblygu ymchwiliadau i fwy nag ugain o safleoedd gwastraff anghyfreithlon ledled y Gogledd-ddwyrain. Mae cysylltiadau â throseddau cyfundrefnol ac rydym yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill. Mae ein hymateb yn cynnwys cynnull tasglu yn y Gogledd-ddwyrain i gytuno ar ddulliau amlasiantaeth cydlynol o reoli'r safleoedd hyn, yr oedd un ohonynt wedi gwaredu tua 15,000 tonnall o ddeunydd yn anghyfreithlon.

Cored Gwaith Tun Cydweli

30. Yn ystod llifogydd gaeaf 2025, cwmpodd rhan sylweddol o gored hanesyddol gwaith tun Cydweli, gan arwain at ddifrod i'r adeiledd rhestredig. Ers hynny, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sicrhau cyllid i gefnogi gwaith ailddatblygu ac adfer. Er bod yr adeiledd presennol yn ymgorffori cwlwert bocs sy'n cael ei ystyried yn is-optimadd ar

gyfer mudo pysgod, mae'r ailddatblygiad yn gyfle gwerthfawr i ni gydweithio â phartneriaid i gyflawni canlyniadau gwell o ran llwybrau pysgod.

31. Mae ein cydweithwyr ym maes pysgodfeydd yn ymgysylltu'n weithredol â'r prosiect i hyrwyddo dull pragmatig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cydbwyso ystyriaethau treftadaeth â chyfleoedd i wella cysylltedd â'r afon a hwyluso symudiad rhydd rhywogaethau pysgod mudol. Gall hyn ddarparu manteision hirdymor i boblogaethau pysgod o fewn y dalgylch wrth gyfrannu at amcanion adfer afonydd ehangach.

Arloesedd ym Magl Pysgod Caer

32. Yn ddiweddar, mae tîm Rhaglen Asesu Stoc Dyfrdwy wedi gosod system gamera Tiva o fewn magl pysgod Caer. Benthycwyd y cyfarpar hwn gan y Tîm Asesu Pysgodfeydd fel prawf ac mae'n darparu gwybodaeth amser real am y pysgod yn y magl, gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i adnabod y pysgod. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am dymheredd, gan nodi a yw'r afon yn rhy gynnes i gynnal monitro ac felly'n atal ymweliad dibwrpas.
33. Mae'r prawf yn rhan o'n gweledigaeth hirdymor o ddefnyddio offer cyfrif pysgod awtomataidd o fewn Rhaglen Asesu Stoc Dyfrdwy. Bydd y camera yn darparu tystiolaeth gefnogol i symud tuag at osod twnnel pysgod Tiva yn barhaol. Byddai hyn yn darparu monitro parhaus o'r safle (rydym yn pysgota yn y magl bedwar diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd), gan ganiatáu i'r tîm ymweld â'r safle dim ond pan fydd pysgod yn y magl a threulio mwy o amser yn dadansoddi'r data ychwanegol o'r systemau monitro ymreolaethol. Bydd cyllid yn cael ei gyflenwi drwy ffrwd gyllido Eogiaid Yfory'r Gronfa Argyfwng Natur a Hinsawdd.

Diweddariadau Masnachol

Gwerthiannau Pren a Marchnata

34. Mae'r rhaglen bren yn parhau ar y trywydd iawn, gyda'r ddau werthiant pren cyntaf yn y flwyddyn ariannol yn cyflawni 64% o'r rhaglen flynyddol. Mae'r galw am barseli pren o ansawdd uchel yn parhau'n gryf, gyda chystadleuaeth dda yn helpu i gynnal prisiau. Fodd bynnag, mae'r galw cyffredinol wedi lleihau ar draws marchnadoedd pren y DU a rhyngwladol, ac er bod prisiau pren Cymru yn parhau i fod yn gymharol gryf, mae'r cynnydd mewn pren yn y chwarter cyntaf wedi bod yn is na'r disgwyl. Mae amodau'r farchnad yn parhau i gael eu dylanwadu gan ffactorau rhyngwladol, gan gynnwys mewnfario is o Sgandinafia, llai o alw sy'n gysylltiedig â llai o weithgarwch adeiladu tai, a phrisiau boncyffion sy'n gostwng ar draws rhannau o Ewrop. Er bod rhai sectorau, gan gynnwys pecynnu, paledi a thanwydd coed, wedi dangos gwydnwch, mae'r farchnad gyffredinol yn parhau i fod yn anwadal.
35. Mae'r sefyllfa incwm is yn erbyn y rhagolwg yn cyfateb i werth un parcel pren cryf a thua deuddeg wythnos o weithgarwch cynaeafu gan gontractwr. Ni ddisgwylir adferiad yn y farchnad tan yn ddiweddarach yn Chwarter 3, yn dilyn cyfnod cau melinau llifio blynyddol yr haf a gostyngiadau tymhorol yn y galw. Wrth edrych ymlaen, disgwylir i amodau'r farchnad barhau i fod yn heriol ac yn anrhagweladwy dros y chwe mis nesaf. Byddai adferiad yng ngweithgarwch adeiladu tai'r DU yn helpu i gryfhau'r galw, ond mae'n debygol y bydd cydgrynhoi parhaus ar draws y sector pren yn y DU ac Ewrop yn parhau i ddylanwadu ar anwadalrwydd y farchnad.

Y Newyddion Diweddaraf am Ganolfannau Ymwelwyr

36. Mae'r cyfle masnachol yn Ffordd Goedwig Cwm-carn yng Nghaerffili yn y camau olaf o gytuno ar delerau gyda'r cynigydd a ffefrir, gyda disgwyl i'r gweithrediadau gychwyn ddechrau 2027.
37. Ym Mwlch Nant yr Arian yng Ngheredigion, mae'r cylch cyntaf o ddeialog gystadleuol wedi dod i ben gyda'r cynigwyr ar y rhestr fer. Mae'r broses wedi cael ei chefnogi gan gydweithwyr lleoedd a chynrychiolwyr cymunedol a enwebwyd gan gynghorau cymuned lleol, y mae eu mewnbwn wedi ychwanegu gwerth sylweddol. Bydd deialog gystadleuol yn parhau dros y misoedd nesaf, gyda disgwyl i'r cynigion terfynol gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref ac i gynigydd a ffefrir gael ei argymhell erbyn mis Rhagfyr. Y bwriad yw i'r ganolfan ailagor erbyn y Pasg y flwyddyn nesaf, neu'n gynharach os bydd y gweithredwr llwyddiannus yn gallu cyflymu'r ddarpariaeth.
38. Yng Nghoed y Brenin yng Ngwynedd, mae'r cam gwerthuso cychwynnol wedi'i gwblhau ac mae'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer wedi cael gwahoddiad i ymgymryd â deialog gystadleuol ym mis Medi. Mae pob sefydliad ar y rhestr fer wedi'i sefydlu o fewn y sector twristiaeth a lletygarwch lleol.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

39. Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiodd gweithgarwch cyfathrebu ar gefnogi digwyddiadau gweithredol mawr ochr yn ochr â chyflwyno ymgyrchoedd rhagweithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mis Gorffennaf oedd mis prysuraf y flwyddyn i'r tîm cyfathrebu, gyda chynnydd sylweddol mewn gweithgarwch yn y cyfryngau a diddordeb y cyhoedd. Mae adnoddau sylweddol wedi'u cyfeirio at gefnogi ymatebion amlasiantaeth, cydlynu ymdrin â'r cyfryngau, a sicrhau gwybodaeth gyhoeddus gyson ynghylch digwyddiadau tanau gwyllt ledled y Gogledd, y Canolbarth a'r De, yn ogystal â nifer o danau diwydiannol. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys hyrwyddo negeseuon atal a diogelwch y cyhoedd, cefnogi gwaith cyfathrebu partneriaid, ac ymdrin ag anghydfodau ynghylch ein rôl a'n cyfrifoldebau.
40. Rheolodd y tîm hefyd ddiddordeb y cyfryngau cenedlaethol yn dilyn cyfres *Buried* y BBC, a oedd yn archwilio safleoedd gwastraff hanesyddol yng Nghymru, gan ddarparu cymorth cyfathrebu ar ansawdd dŵr, digwyddiadau llygredd, gweithgarwch gorfodi amgylcheddol a materion pysgodfeydd, gan gynnwys pryderon yn ymwneud ag afon Tywi.
41. Wrth i amodau sychder waethygu a Chymru gyfan fynd i statws sychder, cynhaliwyd cyfathrebu helaeth â'r cyfryngau a rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys briffiau technegol, cyfweiliadau ar draws cyrff darlledu cenedlaethol a rhanbarthol, a chynnwys rhagweithiol yn egluro effeithiau amgylcheddol, ein rôl reoleiddio, a'r camau a gymerir i reoli adnoddau dŵr.
42. Parhaodd adrodd straeon rhagweithiol i fod yn ffocws allweddol, gan dynnu sylw'n arbennig at waith ein pobl a'r effaith a wnawn ar gymunedau ledled Cymru. Dangoswyd cynnwys a fideos sy'n canolbwyntio ar gydweithwyr yn Sioe Frenhinol

Cymru ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ddangos ehangder y gwaith a wneir ar draws y sefydliad. Lansiwyd ein hadroddiad blynyddol newydd, sy'n canolbwyntio ar effaith, a'r Strategaeth Twf a Gwerth Cynaliadwy, gan ddangos yn glir cyflawniadau ac uchelgeisiau CNC ar gyfer y dyfodol. Ar draws yr holl weithgarwch cyfathrebu, rhoddwyd pwyslais ar wydnwch hinsawdd, atal llygredd ac adfer natur, gan helpu i gynyddu dealltwriaeth o rôl ac effaith CNC.

43. Parhaodd sianeli cyfryngau cymdeithasol i gefnogi blaenoriaethau gweithredol o ran atal tanau gwyllt, effeithlonrwydd dŵr, diogelwch dŵr, adrodd ar lygredd a mynediad cyfrifol i'r awyr agored.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol

44. Mae cyfathrebu mewnol wedi canolbwyntio ar gefnogi cydweithwyr yn ystod cyfnod o bwysau gweithredol parhaus sy'n gysylltiedig ag amodau sychder, tanau gwyllt ac ymateb i ddigwyddiadau. Cefnogodd y tîm hefyd lansiad arolwg *Ein Llais*, a gyflawnodd gyfradd gwblhau o 78%, gyda bron i 2,000 o gydweithwyr yn cymryd rhan; mae gwaith ar y gweill i ddadansoddi'r adborth a nodi camau gweithredu. Mae ymdrechion hefyd wedi canolbwyntio ar wella cynllunio a chydlyn cyfathrebu mewnol: bydd calendr cyfathrebu newydd yn helpu i leihau dyblygu, gwella blaenoriaethu, a sicrhau bod cyfathrebu'n parhau i fod yn hylaw i gydweithwyr.

Materion Allanol a Materion Cyhoeddus

45. Canolbwyntiodd gweithgarwch materion allanol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o waith CNC, trafod materion amgylcheddol allweddol, a chryfhau perthnasoedd. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gan ddangos diddordeb cryf yn ein gwaith ac arbenigedd cydweithwyr.
46. Mae'r defnydd o'r plattform Tractivity ar gyfer cofnodi ymgysylltiad rhanddeiliaid yn parhau i dyfu, gyda bron i 200 o weithgareddau ymgysylltu wedi'u cofnodi. Bydd carfan hyfforddiant derfynol yn sicrhau bod pob un o'r hanner cant o drwyddedau pilot yn weithredol yn llawn.
47. Mae paratodau ar y gweill ar gyfer digwyddiad *Sgyrsiau gydag CNC* ym mis Medi yn Llanfair-ym-Muallt, gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Mae'r tîm hefyd wedi parhau i ddarparu cymorth ymgysylltu ar draws ystod o brosiectau strategol, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Coedwigaeth, y Cynllun Rheoli Basn Afon, y gyfres o weminarau ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a'r ymgynghoriad ar ddiploma defaid.

Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth

48. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, ymatebodd y Tîm Gohebiaeth Ganolog i ystod eang o ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru, cynrychiolwyr etholedig, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid, busnesau, grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd. Y prif bynciau a godwyd oedd ansawdd dŵr, gollyngiadau carthion a llygredd, a'r problemau yn Kronospan a Hafod, gyda thanau gwyllt ac ymateb brys yn dod i'r amlwg fel pryderon ychwanegol ym mis Gorffennaf. Darparwyd 98% o'r ymatebion o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth o ddeg neu bymtheg diwrnod gwaith, ac atebwyd 44% o fewn pum diwrnod gwaith.

49. Derbyniwyd 54 o geisiadau mynediad at wybodaeth newydd yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, gydag 80 o ymatebion yn cael eu cyhoeddi. Parhaodd perfformiad yn uchel, gydag 86% wedi'u cwblhau o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth o ugain diwrnod gwaith, ychydig islaw'r targed o 90% oherwydd pwysau gwyliau'r haf a sawl cais mawr a chymhleth.
50. Ers y diweddariad diwethaf, mae pymtheg o ganmoliaethau wedi'u derbyn i CNC ac aelodau staff unigol.
51. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, agorwyd 29 o gwynion Cam 1 newydd, gyda 96% yn cael ymateb o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth o ugain diwrnod gwaith. Derbyniwyd un gŵyn Cam 2 newydd, ochr yn ochr ag un achos parhaus o'r cyfnod blaenorol. Caewyd cyfanswm o 30 o gwynion, gydag un ar ddeg wedi'u cadarnhau a phedwar ar bymtheg heb eu cadarnhau. Ymhlith y prif themâu ym mis Mehefin roedd parcio yn Niwbwrch, adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig a hysbysiadau tâl cosb; ym mis Gorffennaf, y prif themâu oedd tanau gwyllt a defnyddio hofrenyddion. Derbyniwyd tri hysbysiad penderfynu gan yr ombwdsmon hefyd. Ni chadarnhawyd yr un ohonynt ac roedd penderfyniad ar gyfer pob un i beidio ag ymchwilio iddo, gan roi sicrwydd bod cwynion yn cael eu trin yn briodol.

Rhagolwg

- Dydd Gwener 25 Medi – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mawrth 29 Medi – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Dydd Iau 8 Hydref – Pwyllgor y Bobl
- Dydd Iau 15 Hydref – Galw am ddiweddariadau gan y bwrdd
- Dydd Iau 5 Tachwedd – Cynhadledd Tystiolaeth CNC
- Dydd Gwener 6 Tachwedd – Pwyllgor Cyflawni Strategol
- Dydd Mawrth 10 Tachwedd – Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth
- Dydd Mercher 18 Tachwedd – Cyfarfod y bwrdd mis Tachwedd
- Dydd Mercher 25 Tachwedd – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Gwener 27 Tachwedd – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mercher 9 Rhagfyr – Galw am ddiweddariadau gan y bwrdd
- Dydd Iau 10 Rhagfyr – Pwyllgor y Bobl

Annex 1

2026 Wildfire Season – Great Britain Overview

The 2026 wildfire season was one of the most significant recorded across the UK, with approximately 27,200 hectares (ha) of land affected by large wildfires identified through the European Forest Fire Information System (EFFIS).

Wales experienced a disproportionate share of this activity, accounting for 15,471 ha (57%) of the total UK wildfire area, exceeding the combined total recorded in England, Scotland and Northern Ireland. England accounted for approximately 3,290 ha (12%), Scotland 5,986 ha (22%), and Northern Ireland 2,449 ha (9%).

While the summer season has gathered the media headlines, wildfires in terms of extent were concentrated during the spring period. Following substantial wildfire activity in March, April was the most severe month, accounting for over 10,000 ha of burned area across the UK, driven largely by extensive upland fires in Wales and Northern Ireland. A second period of elevated activity occurred during July and August, when prolonged warm and dry conditions resulted in a series of significant wildfires across Welsh uplands, forestry and heathland sites.

The largest wildfire recorded anywhere in the UK during 2026 occurred in the Elan Valley, Powys, where two connected wildfire events burned a combined 7,847 ha, representing almost 29% of the total UK wildfire area and over half of the total area burned in Wales. This was not only the largest wildfire in Wales but also more than twice the size of the second largest UK wildfire, the Cairngorm wildfire in Scotland (3,347 ha).

Analysis of the ten largest wildfire incidents recorded in the UK shows that six occurred in Wales, including the four largest incidents. The prominence of Welsh upland and moorland fires reflects a combination of fuel loads, prolonged dry weather, exposed landscapes and the occurrence of both accidental and deliberate ignitions. Several of the largest incidents affected internationally important habitats, including Special Areas of Conservation (SACs), Sites of Special Scientific Interest (SSSIs), National Nature Reserves (NNRs) and extensive peatland systems.

Overall this year, Wales was at the centre of the UK's wildfire challenge, with the scale of several Welsh incidents comparable to some of the largest recorded wildfires in recent UK history. The season highlighted the increasing vulnerability of upland habitats, commercial forestry, designated conservation sites and rural communities to prolonged periods of elevated wildfire risk and reinforced the importance of coordinated prevention, preparedness, response and recovery measures.

Summer 2026 Wildfires in Wales – Summary of Known Impact

Across Wales, the high risk period started on 8 July. As at 25 August, risk is still elevated with a multi-site major incident in South Wales still active.

Multiple incidents have been declared by the Fire and Rescue Services (FRS), with fires affecting woodland, peatland, grassland, designated conservation sites and parts of the land in our care (the Welsh Government Woodland Estate (WGWE) and National Nature

Reserves (NNRs) in our direct care). We worked closely with FRS, other local resilience partners, contractors and military personnel to help contain fires, create firebreaks, manage public access and protect communities and key environmental assets.

Number of Wildfires and Scale of Impact

The reports identify at least sixteen separate wildfire incidents requiring monitoring, response or reporting by NRW during the summer period (listed below). A number of smaller flare-ups and re-ignitions also occurred.

Based on the situation reports (sitreps) issued, at least 2,200 ha of land is known to have been affected across Wales during the reporting period. This figure is conservative because several significant fires had no area estimates recorded in sitreps. Estimated areas of damage are shown where known.

• Rhinog SSSI/SAC/NNR and Cwrt Forest	1,050 ha
• Llangynidr to Brecon	400 ha
• Llanwynno	400 ha
• Blaenavon (including subsequent re-ignitions)	286 ha + 15 ha re-ignition
• Penrhys	40 ha
• Gethin	35 ha
• Llanwynno South	1 ha
• Caerphilly (Van Road)	
• Wattsville / Hafod Tudor	
• Rhiwderin	
• Coed Mawr, Risca	
• Brombil, Port Talbot	
• Penyreglyn Tip	
• Llwyn Onn reservoir area	
• Glaschwmm Hill (Mid Wales)	
• Pentre	

Impact on the WGWE

By mid-August, wildfires were affecting:

- Llanwynno, where approximately 400 ha of woodland, vegetation and peatland were affected
- Blaenavon (Cwm Avon Road), where around 286 ha of woodland, peat and ground vegetation were affected
- Gethin, where around 35 ha of woodland and peatland burned
- Penrhys, approximately 40 ha affected
- Caerphilly (Van Road), Pentre and Brombil, where areas of woodland were affected, although final burn areas were not confirmed at time of writing.

Many of these incidents involved deep-seated peat fires that continued to smoulder for weeks, creating an ongoing risk of re-ignition and requiring prolonged monitoring and intervention.

Environmental and Community Impacts

The wildfires affected a range of environmentally important habitats, and posed risks to nearby communities, infrastructure and businesses. Examples included:

- Threats to residential properties at Blaenavon, Llanwynno and Pentre
- Temporary closure of public rights of way
- Temporary closure of Bike Park Wales
- Evacuations associated with major fires outside the NRW estate, including Conwy Mountain
- Significant pressure on water supplies and fire-fighting resources during prolonged dry weather

NRW's Response

We played a significant operational role by:

- participating in Tactical and Strategic Coordinating Groups established under major incident arrangements
- providing on-site technical advice and operational support
- supplying water bowzers and forestry machinery
- deploying staff and contractors to create firebreaks and maintain access routes (in safe areas away from active fire-fighting)
- managing public access restrictions on affected land
- supporting helicopter operations where our contract made this possible
- advising on peatland and designated site protection

At time of writing, we continue to operate enhanced duty rotas and daily incident management arrangements to support partner agencies.

Due to the scale and longevity of the incidents across South Wales, the response included South Wales (SW) FRS requesting and receiving military assistance. The extent and severity of demands on its capacity and capabilities could not be addressed despite UK-wide mutual aid from other FRS. Military resources have been deployed on parts of our managed estate under the direction and control of SWFRS, for example with troops manually creating fire breaks. We continued to receive requests and provide advice on relevant fire-fighting and control activities via SWFRS.

During the same period, we supported FRS in responding to seven industrial / waste fire incidents (Impala, Aberthaw Power Station, Tata Steel, Gwyddelwen Waste Fire, Llantrisant Waste Fire, Delyn Metals Talacre, and Five Lanes Transfer Station), and responded to two slurry pollution incidents, one bathing water classification incident, and two reports of drownings on or close to the land in our care.

We also moved the whole of Wales into drought status, with lots of additional work regulating water abstraction and impoundment licences.

Conclusion

This summer has brought one of the most significant wildfire events experienced in Wales in recent years. At least sixteen separate wildfire incidents were recorded in NRW sitreps, with more than 2,200 ha of land known to have been affected. At least 750 ha of the WGWE and other land in our care was damaged, particularly in South Wales, where large wildfires affected woodland, peatland and designated conservation sites. Much of the impact was

prolonged by deep-seated peat fires, requiring sustained multi-agency intervention long after visible flames had subsided.

Right now the impact feels huge. The incidents were serious and the damage significant and costly. We should remember, however, that we have around 160,000 ha of Welsh land in our care and perhaps 1% of this has burned.

Recovery from Incident Response

We started a “hot debrief” process on 11 August and will join up with FRS, other resilience forum members and partners such as the National Parks to consider how we further develop our preparedness and incident response capability for wildfires.

Heads of Business and Service are developing our approach to recovery from the incident response. On the land in our care, much of the recovery work will be business as usual (restocking, re-fencing) rather than bespoke activity. As far as possible, we want to keep the process simple, avoiding potentially unnecessary work in setting up an additional recovery strategy for little benefit.

Our Head of Communications and External Affairs is leading our communications work; there are lots of enquiries, complaints, media stories, and, indeed, commendations to process with key messages to amplify.

We have an established process to work out the impact on the land in our care, including Place teams preparing reports for central collation. Previous reports are summarised at [3-1-A Impact of reported wildfires - Power BI](#). For context, the 2025 wildfire season saw 450 ha burn with a total additional cost of £0.8 million (incident response, recovery work of which restocking and refencing was the main cost).

Costs for 2026 could be double, around £1.6 million. Subject to eligibility and forecast spend, we could seek additional funding from WG to cover these costs. We are developing enhanced reports on the impact on protected sites beyond our estate, which should be available by the end of October. This timescale allows operational colleagues time to recover from the period of high pressure and intense activity.

While this summer has been described as “unprecedented”, it is, in fact, now normal with the kinds of weather that created the extreme fire risk set to occur more frequently. We set out below the key areas of enquiry for resilience to wildfires.

Review of Strategy for Resilience to Wildfires

We have started a review of our strategy for resilience to wildfires. This will frame our input to the forthcoming Ministerial summit on wildfires and other processes such as a WG initiative to coordinate wildfire resilience work across government departments.

At time of writing, the major incident is ongoing; recovery is only just starting and time will be needed for our operations to return to business as usual. Accordingly, this is a high-level outline framework that will be finalised as colleagues become available.

Strategy for incident response:

We have an annual cycle of strategic reviews of incident readiness. The most recent, held in March this year, included the wildfire season. Overall, our conclusion was that we were reasonably well prepared but that responding to multiple or prolonged incidents would be challenging.

Our high-level strategic direction across all incident types was a risk based approach to reduce the rate and intensity of our response to specific incidents to enable us to put more into prevention, noting that the Civil Contingencies Act applies to civil emergencies not necessarily the types of incidents we currently often respond to.

The Executive Team will review whether this remains a credible strategy in the light of the apparent pace of increase in the severity and frequency of weather-related incidents caused by climate change, and other risks such as cybersecurity. At time of writing, the Met Office is warning of the potential for an extreme El Niño event to generate a wetter and stormier autumn than usual for the UK, and the media is reporting Russian threats of disruption to our economy and society.

Resilience to wildfire from land management:

The evidence we have collated supports greater heterogeneity in upland landscapes (extensive grazing, re-wetting of peatland, areas of broadleaved tree planting, carefully planned and implemented “burning to protect”) along with continued public education. This is counter to a tendency for some people to lobby for more land management that fulfils their particular interests. Our *Wildfire Wise* report, an output of the Healthy Hillside project, forms a strong evidence-base. Our new Strategic Approach to Protecting Nature provides further support and our Head of Knowledge and Evidence is looking again at the evidence including the early learning from the wildfire season.

On the WGWE, we reviewed land management practices for wildfire resilience after the 2024 wildfire season. Key actions included assessing wildfire risk and, in the riskier areas, planning linear managed open space features and/or bands of less fire-prone vegetation along which FRS can set fire-fighting lines; greater diversity in tree planting, changes in timber harvesting practice and closer liaison with FRS. We will assess progress in implementation and whether the actions go far enough as part of recovery.

Aerial support provision:

With support from procurement and contract management colleagues, we reviewed our existing arrangements for providing aerial support for fire-fighting on the land in our care. Due to the severity of the risks, while FRS remained responsible for wildfire response and incident command, we introduced greater flexibility to our helicopter support provision.

With partners, we put in place a temporary arrangement until the end of September (or until wildfire risk reduced), broadening access to helicopter support while maintaining clear governance, funding and deployment responsibilities. We streamlined procurement processes to support quicker decision-making, improve visibility of supplier availability and provide greater flexibility to secure support during periods of heightened risk.

Despite this flexibility, we feel that aerial support has been shown to be inadequate with apparently just six suppliers across the UK and no military capability. At several key moments in our wildfire season, there was no aerial support available for the FRS. Our reputation was damaged by misplaced expectation from stakeholders that providing aerial

support in general was our responsibility. We have worked closely with WG and Fire Chiefs to clarify our role and manage communications.

We and the Welsh Fire Chiefs have agreed a position on our preferred long-term solution, a proposal that WG should coordinate setting up a Wales-wide mechanism for aerial support, with greater capacity and different technical capability, overseen by an organisation other than NRW. The response from WG officials has been supportive and we continue to work with them and our FRS colleagues.

We feel urgent action is needed so we can be ready for the 2027 wildfire season.

Technical matters:

These include use of salt water for fighting fires (probably better than allowing a fire to burn when other supplies are running low, despite the environmental impact), use of fire retardants and surfactants (being assessed), techniques for fighting peat fires (this season, the response tended to involve digging trenches down to the bed rock / mineral soil, which may damage peat in the long-term making it more vulnerable to fire) and whether our actions at all times reflected health and safety guidance that colleagues and our contractors should not get involved in fire-fighting.

Enforcement:

Alongside public education campaigns, which we feel are best led by Local Authorities and FRS, we should consider whether we have greater powers than we currently deploy, for example to enforce responsible upland burning, enforce bans on risky activities, or support the Police in preventing arson in South Wales.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2026
Teitl y Papur:	Niwclear – llythyr y Canghellor
Cyfeirnod y Papur:	26-09-B10
Noddwyd y papur gan:	Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol
Paratowyd y papur gan:	Victoria Watson, Prif Ymgynghorydd, Rheolwr Trawsnewid Pobl
Cyflwynwyd y papur gan:	Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol
Pwrpas y papur	Cymeradwyaeth
Crynodeb	Rydym wedi drafftio ein hymateb i lythyr y Canghellor yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddwn yn cefnogi cyflawni Rhaglen Niwclear y DU, gan adlewyrchu sylwadau gan y Pwyllgor Cyflawni Strategol. Gofynnwn i chi gymeradwyo ein hateb i'r Canghellor.

Cefndir

1. Gwnaethom ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dderbyn llythyr gan y Canghellor ar y pryd, Rachel Reeves ar 13 Mawrth 2026 yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddwn yn cefnogi cyflawni Rhaglen Niwclear y DU yn dilyn Adolygiad y Tasglu Rheoleiddio Niwclear. Mae'r llythyr yn gofyn am fewnbwn ar lefel y Bwrdd, ystyriwyd drafft yn y Pwyllgor Cyflawni Strategol (SDC), fe'i diwygiwyd gennym yn dilyn adborth yn y SDC, ac rydym bellach yn ei gyflwyno i'r Bwrdd llawn i'w gymeradwyo.
2. Mae ymateb drafft (Atodiad 1) wedi'i baratoi, yn nodi sut rydym yn cynyddu effeithlonrwydd rheoleiddio er mwyn cefnogi datblygiad niwclear sy'n cyflawni safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd ac yn cyflawni dros natur.
3. Rydym wedi rhannu ein hateb drafft gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cymryd eu hadborth i ystyriaeth. Rydym wedi adolygu ymateb drafft Asiantaeth yr Amgylchedd ac wedi gwirio a yw'n cyd-fynd â negeseuon ac ymrwymadau allweddol, gan sicrhau bod ymateb CNC yn adlewyrchu cyd-destun Cymru a'n cyfrifoldebau statudol.

4. Mae ein llythyr yn tynnu sylw at safle unigryw CNC fel rheoleiddiwr amgylcheddol a Chorff Cadwraeth Natur Statudol, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy integredig ac effeithlon.
5. Mae gennym ni Dîm Niwclear pwrpasol a threfniadau cymorth Prosiect Adweithydd Modiwlaid Bach Gwyndod/Wylfa ar waith, a gefnogir trwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.
6. Ym mis Rhagfyr, daethom â'r timau Cynllunio a Thrwyddedu at ei gilydd o dan un Gyfarwyddiaeth i helpu i wella gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd. Mae Rhaglen Drawsnewid yn cael ei sefydlu i wella perfformiad cynllunio a thrwyddedu, gwasanaethau digidol, effeithlonrwydd prosesau a phrofiad cwsmeriaid.
7. Mae'r manteision disgwylledig yn cynnwys perfformiad gwell o ran caniatâd, llai o ailweithio, costau gweinyddol is a mwy o sicrwydd i ddatblygwyr. Bydd cyflawni llwyddiannus yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn systemau digidol ac arbenigwyr. Byddwn yn cyflwyno amcangyfrifon meintiol o fanteision yn y cyfarfod, os ydym wedi gallu eu cyfrifo.
8. **Neges gyffredinol:** Mae CNC mewn sefyllfa dda i gefnogi uchelgeisiau niwclear y DU sy'n dod â manteision i Gymru drwy gydbwyso sero net, adferiad natur a thwf economaidd cynaliadwy.

Risgiau, Parodrwydd i Dderbyn Risg a Chyfleoedd

9. Y mwyaf perthnasol ac a fydd yn helpu i liniaru Risg Strategol 7: Methiant Rheoleiddiol

Goblygiadau ehangach

10. Goblygiadau ehangach y gwaith hwn yw:

- a. **Amcanion Llesiant** : Bydd y gwaith a nodir gennym yn y llythyr yn dod at ei gilydd yn ein Cynllun Aml-flwyddyn ehangach (MyP), sy'n deillio o'n Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar Amcanion Llesiant.
- b. **Goblygiadau Cyllid ac Adnoddau:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol penodol i'r ymateb. Mae i ba raddau y gallwn gyflawni'r manteision yn dibynnu ar drafodaethau cyllideb ehangach, rhan o'r MyP.
- c. **Cydraddoldeb, Diogelu Data:** amherthnasol ar gyfer y llythyr, wedi'i gynnwys yn MyP.

Camau nesaf/argymhelliad

11. Rydym yn argymhell eich bod yn cymeradwyo ein hymateb i'r Canghellor.

Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr drafft CNC

Atodiad 2 – Llythyr y Canghellor

Proses gymeradwyo / ymgynghori

Proses gymeradwyo / ymgynghori Yn gyfrifol: Pwy sydd wedi datblygu'r papur/y broses a phwy sydd wedi cael rhoi mewnbwn?	Victoria Watson Dominic Driver a Nadia De Longhi
Yn atebol: Pwy sy'n atebol am gymeradwyo yn y pen draw? I bwy y byddwn/yr ydym yn gofyn iddynt gymeradwyo?	Dominic Driver
Ymgynghorwyd â : Pwy yr ydym wedi ymgynghori â nhw hyd yma? Pan fo angen cymeradwyaeth, a yw hyn wedi'i drefnu? A fydd angen ymgynghori pellach?	Dominic Driver, Rhian Jardine, Ruth Jenkins, Rhodri Morgan, Nadia De Longhi, Becky Favager ac aelodau o'r Grŵp Goruchwyllo Caniatâd Seilwaith mewnol + Philip Bowen (Llywodraeth Cymru), y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, y Tîm Gweithredol
Wedi'u hysbysu : Pwy sydd wedi cael gwybod neu sydd angen mwy o wybodaeth am y gwaith?	Grŵp Goruchwyllo Caniatâd Seilwaith

Annex 1

Natural Resources Wales

Chancellor of the Exchequer – Rt Hon John Healey MP
HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

Dear Chancellor, Implement the Nuclear Regulatory Taskforce Review

Thank you for the Chancellor's letter of 13 March 2026 and for the UK Government's commitment to improving delivery in the nuclear sector.

As Wales' principal environmental regulator and statutory nature conservation body, Natural Resources Wales (NRW) acknowledges the ambition to deliver nuclear infrastructure at pace, recognising the benefits to climate mitigation while maintaining the highest standards of safety, environmental protection, and delivering for nature.

Our Corporate Plan sets out our ambition to protect and enhance Wales's natural resources, built around our four Well-being Objectives. We are committed to building an organisation that is skilled, resilient, and equipped to deliver for Wales.

NRW understands the national importance of accelerating nuclear deployment, including the Gwyndod/Wylfa Small Modular Reactor (SMR) project and the wider UK nuclear programme. We also recognise our role in achieving a proportionate, predictable, and collaborative regulatory system.

We seek to ensure the sustainable management of our natural resources for human and environmental well-being in Wales through delivery of our regulatory duties. We ensure that our decisions and advice are based on evidence and assessed against international standards and guidance.

Our response below sets out how NRW will contribute to this national effort, and what support is required to ensure Wales can meet UK-wide expectations while fulfilling devolved environmental responsibilities and our statutory duties under the Well-being of Future Generations (Wales) Act.

1. NRW's commitment to timely, proportionate and cost-effective delivery

NRW is already taking significant steps to improve delivery, aligned to the nuclear programme. We have in place the following:

- Dedicated Nuclear Teams to provide an integrated approach to our policies, approaches and regulation of the nuclear sector, and connecting to all our regulatory and advisory functions
- Maintaining an enduring Service Level Agreement with the Environment Agency to provide the technical capability, nuclear expertise, and resilience for our regulation of nuclear sites in Wales, radiological environmental monitoring in Wales, and nuclear incident and emergency arrangements.
- Working Group with Welsh Government to focus on matters arising from the Nuclear Regulatory Review recommendations that fall within devolved competence, affect devolved interests, or require engagement with UK Government or other administrations on a Wales-specific basis.
- Support for the Gwyndod/Wylfa SMR project, with a dedicated place-based team leading NRW's response and acting as a single point of contact. Key to this is early engagement with developers. [We are aligning this approach with the Lead Regulator Model to strengthen collaboration with our supply chain.](#)
- Close working relationships with key partners and commitment to projects including the Atlantic Partnership for Advanced Nuclear Energy and the GRR Outreach Project, which provides guidance to ensure radioactive waste is safely managed.
- [NRW will work with partners across North Wales to coordinate strategic mitigation, strengthen ecological resilience and maximise regional benefits from new nuclear development.](#)
- A collaborative approach would help build a nuclear-ready supply chain and support local skills growth, aligning with both UK and Welsh Government priorities. We have already demonstrated the value of this model through the Morlais Tidal Demonstrator project, where early partnership working enabled strategic mitigation and delivered wider community and environmental benefits.
- Strengthened consenting capacity and improved digital solutions, supported by Welsh Government funding.
- Work to streamline permitting processes, including framework permits, which respond to GBE-N requests for progressive permitting.

These actions will allow NRW to focus resources on the most critical issues while reducing unnecessary delay.

2. NRW's integrated structure

NRW is unique within the UK in having the environmental regulator and the statutory nature conservation body within the same organisation. This provides a significant advantage for nuclear regulation in key areas including:

- A single regulatory voice for permitting, conservation advice, habitats regulation, marine licensing, and environmental assessments.
- Faster, more joined-up decision-making, avoiding delays that can arise between separate bodies.
- Better alignment with the Lead Regulator Model, which seeks exactly this type of integrated approach.
- We brought our Planning and Permitting teams together within a single Directorate to improve customer service and efficiency.

This integrated model is a key advantage for the UK nuclear programme in Wales.

3. NRW's New Nuclear Team – Lead Environmental Regulator

NRW has established a dedicated new nuclear team to act as the lead environmental regulator for all nuclear sites in Wales. This team works collaboratively to:

- Permit radioactive waste discharges and ensure compliance with environmental limits.
- Assess new reactor designs, working together with EA and ONR to ensure they meet strict environmental and radiological protection standards.
- Oversee the entire lifecycle of nuclear facilities in Wales, from design assessment to decommissioning.
